



Ein cyf/Our ref MA-JJ-3967-21

At:

Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol
Penaethiaid Cynllunio yr Awdurdodau Cynllunio Lleol
Penaethiaid Llifogydd yr Awdurdodau Lleol

15 Rhagfyr 2021

Annwyl gyfeillion

Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15

Ysgrifennodd y Gweinidog Newid Hinsawdd, Julie James, atoch ar 23 Tachwedd yn esbonio bod y TAN 15 newydd yn cael ei oedi tan fis Mehefin 2023 cyn dod i rym. Yn ei llythyr, esboniodd y Gweinidog y byddem yn ysgrifennu atoch gyda manylion pellach am oblygiadau ei phenderfyniad.

Mae'r Gweinidog wedi ei gwneud yn glir bod y saib yn gyfle i adeiladu gwytnwch, i ddatblygu cynlluniau manwl, i flaenoriaethu gweithgareddau awdurdodau lleol i gwrdd â'r heriau a ddaw yn sgil yr argyfwng hinsawdd ac adeiladu'r gallu angenrheidiol i wneud hynny. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n hanfodol bod yr awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru yn gweithio ar y cyd, yn greadigol ac yn gyflym.

Mae ystyriaeth lawn o risg llifogydd a'i reolaeth yn y system gynllunio yn parhau i fod o'r flaenoriaeth uchaf. Yn ystod y cyfnod saib o 18 mis, bydd fframwaith polisi presennol Polisi Cynllunio Cymru, TAN 15 a'r Map Cyngor Datblygu, ynghyd â TAN 14 yn parhau yn ei le.

Mae'r llythyr hwn yn nodi'r pecyn gwaith sydd i'w gwblhau gan awdurdodau cynllunio cyn Mehefin 2023, a'r goblygiadau allweddol ar gyfer gwasanaethau cynllunio yn ystod y cyfnod saib. I grynhoi:

1. Aseidiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd (ASGLI) - cadarnhau anghenion

Erbyn diwedd mis Ionawr 2022, rydym yn disgwyl i bob awdurdod cynllunio lleol gadarnhau â Llywodraeth Cymru a yw'n ymgymryd â ASGLI newydd, yn diweddarau dogfen bresennol, neu wedi dod i'r casgliad nad oes angen gwneud unrhyw waith pellach. Os mai dyma'r cyfeiriad a ddewisir, rhaid darparu cyfiawnhad clir.

2. ASGLI – adroddiadau cynnydd

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn dilyn y llythyr cychwynnol gan bob awdurdod cynllunio lleol, rydym yn disgwyl diweddiadau ar gynydd wrth gynnal yr ASGLI, gan gynnwys manylion o gerrig milltir allweddol. Dylai'r rhain gynnwys penodi ymgynghorwyr neu dîm ymchwil, cynlluniau prosiect y cytunwyd arnynt ac adroddiadau drafft a therfynol. Roedd y Gweinidog yn glir ei bod yn disgwyl i ASGLI gael eu cwblhau erbyn 30 Tachwedd 2022.

3. Cynlluniau datblygu:

Pan fo cynlluniau yn cael eu adolygu, rhaid i'r ystyriaethau risg llifogydd sy'n bwydo i'r strategaeth anheddu a dyraniadau safle fod yn unol â'r TAN 15 newydd a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. Yr ASGLI fydd y brif ffynhonnell dystiolaeth i lywio'r elfennau hynny o'r cynllun a pholisïau risg llifogydd lleol.

4. Rheoli datblygu:

Mae'r saib yn golygu bod y fframwaith polisi presennol yn parhau i fod ar waith am 18 mis arall. Dylai awdurdodau cynllunio gydnabod fodd bynnag y gallai fod yn briodol ystyried y wybodaeth orau a mwyaf diweddar fel ystyriaeth berthnasol.

Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd (ASGLI)

ASGLI yw'r prif fodd o wneud yn siŵr fod ystyriaethau o risgiau llifogydd sy'n benodol i le yn cael eu blaen-lwytho i'r system gynllunio. Maent yn llywio cynlluniau datblygu ac yn darparu tystiolaeth bwysig o risg i gymunedau presennol ac ardaloedd datblygu newydd fel ei gilydd. Mae'r Gweinidog yn disgwyl i bob awdurdod yng Nghymru fod wedi adolygu eu ASGLI, naill ai'n rhanbarthol neu'n unigol, a sicrhau ei fod yn gyfredol

Rydym yn disgwyl i bob awdurdod cynllunio lleol ein hysbysu trwy lythyr erbyn diwedd Ionawr 2022 a yw'n ymgymryd â ASGLI newydd, yn diweddarar dogfen sy'n bodoli eisoes, neu a yw'n fodlon nad oes angen gwneud unrhyw waith pellach. Yn achos yr olaf, rhaid darparu cyfiawnhad clir. Rydym yn annog asesiadau rhanbarthol lle bo hynny'n bosibl oherwydd gall y gwaith hwn lywio Cynlluniau Datblygu Strategol. Mae asesiadau rhanbarthol hefyd yn cynnig gwell gwerth am arian a chyfle i ystyried ymatebion priodol i risgiau llifogydd dros ardal ehangach. Dylai gwaith rhanbarthol fod yn seiliedig ar yr ôl troed yn [Cymru'r Dyfodol – y cynllun cenedlaethol 2040](#), ond rydym yn derbyn efallai na fydd yn bosibl os oes gan un neu ragor o awdurdodau mewn rhanbarth ASGLI sy'n gwbl gyfoes.

Bydd adolygu'r ASGLI yn helpu gyda chyhoeddi strategaethau llifogydd lleol. Mae angen y dogfennau statudol hyn yn 2023 a byddant yn nodi eich blaenoriaethau risg llifogydd ac erydiad arfordirol dros y degawd nesaf, gan gynnwys eich piblinell o waith lliniaru llifogydd ac erydiad arfordirol. Bydd strategaethau llifogydd lleol yn cael eu hategu gan strategaeth fuddsoddi tymor hir Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer gwaith rhagamcanol i reoli llifogydd o brif afonydd a'r môr.

Mae Pennod 7 o'r TAN 15 newydd yn disgrifio'r disgwyliadau allweddol ar gyfer ASGLI, ac mae ynghlwm i'r llythyr fel canllaw. I grynhoi rhaid i ASGLI fynd i'r afael â'r materion canlynol:

- Asesiad o risgiau llifogydd nawr ac yn y dyfodol mewn lleoliadau strategol bwysig yn eich ardal, megis canol trefi ac ardaloedd gyda photensial ar gyfer datblygu;
- Nodi ardaloedd lle gallai cynlluniau rheoli llifogydd gynnig gwelliant i gymunedau sydd mewn perygl o lifogydd;

- Cydnabod bod effeithiau newid yn yr hinsawdd yn anrhagweladwy - rhaid archwilio ac asesu ystod o senarios, gan gynnwys y digwyddiad 1000 o flynyddoedd. Rhaid i'r rhain bennu sut y rheolir risgiau a chanlyniadau;
- Cynnwys wybodaeth am bob ffynhonnell llifogydd - o'r môr, afonydd, dŵr wyneb a dŵr daear. Ar gyfer ardaloedd arfordirol, dylid cydnabod ac asesu unrhyw risgiau o erydiad hefyd;
- Ystyried polisiâu y cynllun rheoli traethlin ar gyfer yr ardal;
- Cydnabod mai'r TAN 15 newydd a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio fydd y cyd-destun ar gyfer penderfyniadau cynllunio;
- Sicrhau cyfranogiad rhanddeiliaid mewnol ac allanol. Dylid ceisio anghenion a barn yr awdurdod llifogydd lleol arweiniol, corff cymeradwyo SuDS, cynllunwyr brys a gwasanaethau brys, diwydiant yswiriant, Cyfoeth Naturiol Cymru, grwpiau arfordirol, darparwyr carthffosiaeth a dŵr fel rhan o'r gwaith;
- Nodi a darparu tystiolaeth gadarn i gefnogi unrhyw ddiulliau polisi lleol benodol y mae'r awdurdod yn dymuno eu cynnig a'u profi yn arholiad y cynllun datblygu.

Yn dilyn y llythyr cychwynnol, rydym yn disgwyl y bydd amserlen fanwl yn cael ei darparu, ac yna diweddariadau ar y cynnydd o ran cynnal yr ASGLI, gan gynnwys manylion cerrig milltir allweddol. Dylai'r rhain gynnwys penodi ymgynghorwyr neu dîm ymchwil, cynllun prosiect y cytunwyd arnynt ac adroddiadau drafft a therfynol.

Pwysigrwydd cael ASGLI cyfoes yw sicrhau bod pob awdurdod yn gwbl barod ar gyfer cyhoeddi'r TAN 15 newydd ym mis Mehefin 2023. Bydd yr ASGLI yn llywio cynlluniau datblygu ac yn helpu i gyflawni tri chanlyniad penodol ac angenrheidiol cyn i'r TAN 15 newydd gymryd effaith.

1. Mireinio'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio

Ymhen 18 mis y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio fydd y brif ffynhonnell gwybodaeth ofodol ar risg llifogydd ac erydiad arfordirol at ddibenion cynllunio. Mae gan Lywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru hyder yn y Map, sy'n cynrychioli gwybodaeth well a mwy diweddar na'r Map Cyngor Datblygu. Serch hynny, rydym yn cydnabod ac yn croesawu'r cyfle i'w fireinio ymhellach a sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r holl dystiolaeth briodol gan Awdurdodau Rheoli Risg o risg llifogydd a chynlluniau lliniaru cyn iddo ddod i rym yn llawn. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i wneud gwaith modelu lleol ac yn cynnwys y wybodaeth hon mewn diweddariadau ddwywaith y flwyddyn i'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. Bydd hon yn broses barhaus yn y cyfnod interim ac ar ôl iddo ddod yn weithredol.

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i rannu manylion eu rhaglen waith yn y dyfodol ar gyfer gwaith modelu lleol gydag awdurdodau lleol, fel bod awdurdodau lleol yn gwybod lle y gellir osgoi gwaith dyblyg. Y tu hwnt i'r ardaloedd hyn, cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw darparu tystiolaeth i lywio mireinio'r Map. Gall y dystiolaeth hon ddod o'r ASGLI cyfoes, modelu lleol a wnaed gan yr awdurdod neu wybodaeth 3ydd parti (rhaid ei darparu fel her i'r map llifogydd).

Bydd y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn cael ei ddiweddarau dair gwaith cyn iddo ddod i rym (Mai 2022, Tachwedd 2022 a Mai 2023). Os yw'r awdurdod lleol o'r farn bod ganddynt dystiolaeth i gefnogi diweddariad i'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, dylent ddarparu hyn i Gyfoeth Naturiol Cymru fel her i'r map llifogydd. Disgwylwn i'r mwyafrif o welliannau cyn Mehefin 2023 fod yn fân ddiwygiadau (a) i ffiniau parthau 3 a 2, a (b)

chynnwys amddiffynfeydd llifogydd yr Awdurdod Rheoli Risg ychwanegol, fydd yn cyfiawnhau creu parth amddiffynedig TAN15 lle bo hynny'n briodol.

Bydd Parthau Amddiffynedig TAN 15 newydd yn cael eu cynhyrchu pan fydd amddiffynfeydd llifogydd yn cael eu cwblhau i'r safon amddiffyn a ddiffinnir yn TAN 15. Rhaid cynnwys manylion amddiffynfeydd awdurdodau lleol ar eich Cofrestr Asedau a sicrhau eu bod ar gael i Gyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod y Map Llifogydd yn defnyddio data mor gywir â phosibl. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, o'u rhan hwy, yn ymgorffori mwy o amddiffynfeydd gan awdurdodau lleol fel rhan o'r gwaith Cronfa Ddata Asedau Cenedlaethol.

2. Nodi piblinell o brosiectau ar gyfer rheoli risg llifogydd ac erydiad arfordirol

Mae rhaglen risg llifogydd ac erydiad arfordirol Llywodraeth Cymru yn gwahodd ceisiadau sy'n lleihau'r risg i gymunedau fel y nodir yn y [Strategaeth Genedlaethol](#) a'r [canllawiau cysylltiedig](#). Dylai awdurdodau lleol baratoi piblinell o waith tebygol fel rhan o'r strategaeth llifogydd leol, gan gydnabod sut y bydd yr amcanestyniadau hinsawdd yn dod â mwy o ardaloedd i risg llifogydd, ac yn cynyddu dyfnder a chyflymder llifogydd yn y dyfodol. Bydd angen cytuno ar gynlluniau sy'n rheoli risg o brif afonydd neu'r môr ochr yn ochr â Chyfoeth Naturiol Cymru.

Deallir bod gan lawer o awdurdodau lleol uchelgeisiau i drosi rhai ardaloedd Parth 3 yn Barthau Amddiffynedig TAN 15, trwy fuddsoddi mewn amddiffynfeydd llifogydd. Dylai awdurdodau fod yn ymwybodol nad yw'r rhaglen risg llifogydd ac erydiad arfordirol yn darparu cyllid i alluogi datblygiad newydd mewn ardaloedd â risg uchel o lifogydd.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod yr angen i ddatblygu gwytnwch yng nghanol trefi ac ar gyfer seilwaith o bwys cenedlaethol, lle maent yn wynebu peryglon llifogydd newydd neu gynyddol o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd. Mae'n debygol y bydd angen dull aml-asiantaeth, gyda chefnogaeth y sector preifat lle bo hynny'n briodol, i gyflawni canlyniadau o'r fath. Mae'r ASGLI yn gam cyntaf pwysig wrth nodi lleoedd lle gallai fod angen gweithredu.

Efallai bydd angen mesurau ymaddasol yn hytrach na gwaith lliniaru neu amddiffyn mewn rhai lleoedd yn y tymor hwy. Mae Cynlluniau Rheoli Traethlin wedi nodi ardaloedd arfordirol lle mae angen y dull hwn, ac ni ddylai awdurdodau lleol gilio rhag ystyried oes angen adleoli seilwaith a chymunedau yn raddol. Dylid defnyddio'r strategaeth llifogydd lleol a'r cynllun datblygu lleol i helpu reoli unrhyw fesurau addasol o'r fath.

3. Datblygu dulliau polisi lleol penodol

Bydd y TAN 15 newydd yn galluogi awdurdodau cynllunio i gyflwyno dulliau penodol yn lleol, lle cânt eu llywio gan dystiolaeth gref. ASGLI cyfoes yw'r ffordd orau o ddangos yr angen hwn. Nodir enghreifftiau o ddulliau lleol penodol ym mharagraff 7.5 o'r TAN 15 newydd.

Dull y mae rhai awdurdodau cynllunio lleol wedi nodi eu bod yn bwriadu ei archwilio yw rhoi mwy o bwysigrwydd i amddiffynfeydd llifogydd preifat. Nid yw amddiffynfeydd preifat ac amddiffynfeydd eraill nad ydynt yn cael eu rheoli gan Awdurdod Rheoli Risg yn cynhyrchu Parthau Amddiffynedig TAN 15, ond mewn rhai achosion maent yn darparu safon amddiffyn yr un mor gadarn. Rhaid i unrhyw awdurdod cynllunio lleol sy'n ceisio cydnabod amddiffynfeydd preifat fodloni ei hun bod yr amddiffyniad wedi'i ddylunio, ei adeiladu a'i weithredu'n ddigonol, a bod trefniadau cynnal a chadw tymor

hir priodol ar waith. Rhaid iddo hefyd ddarparu safon amddiffyniad sy'n cyfateb i amddiffynfeydd yr Awdurdod Rheoli Risg sy'n creu'r Parthau Amddiffynedig TAN 15.

Lle mae gan awdurdod lleol hyder yng nghadernid yr amddiffyniad, a bod ganddo ddyheadau ar gyfer datblygu mewn meysydd sy'n elwa o'r amddiffynfeydd hynny, fe'u hanogir i ddefnyddio eu pwerau fel Awdurdod Rheoli Risg i gymryd cyfrifoldeb am yr ased hwnnw.

Dylid cynnwys dulliau lleol penodol mewn cynllun datblygu a fabwysiadwyd. Felly, efallai y bydd angen cyflymu'r broses o adolygu cynlluniau datblygu lleol er mwyn caniatáu i hyn ddigwydd.

Cynlluniau Datblygu

Ar gyfer cynlluniau datblygu lleol sy'n cael eu hadolygu, mae'r saib wrth weithredu'r TAN yn rhoi cyfle i ystyried a gweithredu ar y peryglon llifogydd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Mae'n bwysig bod strategaethau anheddu a'r prosesau dewis safleoedd yn cyd-fynd â chanfyddiadau ASGLI. Wrth ddrafftio polisïau ar risg llifogydd dylid canolbwyntio ar fanylion safle penodol a dulliau gweithredu lleol, gan nad oes angen ailadrodd polisïau cenedlaethol.

Dylai'r cynllun datblygu ategu'r strategaeth llifogydd leol, trwy nodi risgiau allweddol a lleoliadau cynlluniau rheoli risg llifogydd ac erydiad arfordirol.

Mae TAN 14 (1998) yn parhau yn ei le ar gyfer materion cynllunio arfordirol nes iddo gael ei ddisodli gan TAN 15. Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i bolisïau perthnasol y Cynllun Rheoli Traethlin ar gyfer eich ardal.

Rheoli Datblygu

Yng dilyn y penderfyniad i oedi'r TAN 15 newydd, rhaid i benderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn ogystal â thrafodaethau cyn ymgeisio lle mae risg llifogydd yn ystyriaeth fod yn seiliedig ar y TAN 15 presennol. Mae Adran 6 o TAN 15 yn nodi'r prawf dilyniannol y mae rhaid i awdurdodau cynllunio e ddilyn i gyfiawnhau lleoli datblygiad mewn ardal risg llifogydd.

Mae'n ddyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol i ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru ar geisiadau cynllunio ar gyfer datblygu mewn ardaloedd risg llifogydd, lle:

- Dynodir y tir fel parth llifogydd C2 ar y map cyngor datblygu; neu
- Mae'r datblygiad ar gyfer datblygu gwasanaethau brys neu ddatblygiad bregus iawn lle mae'r tir wedi'i ddynodi'n barth llifogydd C1 ar y map cyngor datblygu.

Mae'n arfer safonol ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru ar unrhyw ddatblygiad mewn ardal lle mae risg llifogydd (parth llifogydd C1 neu C2). Dylai hyn barhau.

Gall awdurdodau cynllunio lleol ddisgwyl i gyngor gan Cyfoeth Naturiol Cymru dynnu sylw at y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio lle mae'n amlwg ei fod yn effeithio ar gyd-destun y cais. Er enghraifft, os bydd safle ym mharth C1 y map Cyngor datblygu yn dod yn barth 3 ar y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn tynnu sylw at y ffaith honno ac yn cynghori a ddylid cynnal asesiad o ganlyniadau llifogydd. Gall Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd dynnu sylw at risg llifogydd ar safleoedd lle ymgynghorir â nhw am resymau eraill, os yw ar hyn o bryd ym mharth A y map cyngor datblygu ond mewn ardal risg llifogydd ar y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio.

Mae'r math hwn o gyngor yn bosibl oherwydd bod y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn parhau i fod ar gael i'r cyhoedd ac yn darparu gwybodaeth well a mwy diweddar na'r map Cyngor datblygu. Nid oes gan y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio unrhyw bwysau ffurfiol gan nad yw'n bolisi cenedlaethol eto, ond gellir ystyried bod y wybodaeth orau sydd ar gael yn ystyriaeth berthnasol.

Roedd y rolau a'r cyfrifoldebau wrth reoli peryglon llifogydd yn mynd i fod yn fwy eglur yn y TAN 15 newydd. Amlygodd y ddogfen, er enghraifft, rôl bwysig awdurdodau llifogydd lleol arweiniol mewn perthynas â llifogydd o gyrsgiau dŵr cyffredin, llifogydd dŵr wyneb a risg erydiad arfordirol. Rydym yn argymhell yn gryf y dylai awdurdodau cynllunio ymgysylltu â'r sefydliadau a'r adrannau perthnasol wrth ystyried risgiau heblaw llifogydd o briif afonydd a'r môr os nad yw hyn yn digwydd eisoes.

Bydd Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru yn parhau i ddefnyddio'r TAN 15 presennol fel sail y polisi cynllunio cenedlaethol ar gyfer ystyried risg llifogydd mewn apeliadau ac achosion eraill sy'n cael ei ystyried. Byddant hefyd yn rhoi sylw i'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio lle mae wedi ei nodi fel ystyriaeth berthnasol.

Y Map Cyngor Datblygu

Rydym wedi cyfarwyddo Cyfoeth Naturiol Cymru i beidio â gwneud unrhyw ddiweddariadau pellach i'r map cyngor datblygu, felly ni fydd y broses herio ar gael. Mae proses herio'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio ar agor. Mae mwy o wybodaeth am herio'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

<https://naturalresources.wales/flooding/challenging-our-flood-maps/?lang=cy>


Cyfarwyddyd Hysbysu

Mae Cyfarwyddyd Hysbysu 2012 yn parhau yn ei le. Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol sydd am gymeradwyo datblygiad sy'n agored iawn i niwed sydd wedi'i leoli'n gyfan gwbl ym mharth llifogydd C2 hysbysu Gweinidogion Cymru, er mwyn caniatáu iddynt ystyried galw'r cais i mewn. Mae'r Cyfarwyddyd yn berthnasol i gynlluniau preswyl o 10 uned neu fwy, i fathau eraill o ddatblygiad a ddiffinnir yn y TAN 15 presennol fel rhai sy'n agored iawn i niwed, a'r gwasanaethau brys.

Datganiadau draenio

Bydd y TAN 15 newydd yn cyflwyno datganiadau draenio fel gofyniad ffurfiol pan fydd datblygwyr yn dewis dilyn y prosesau cymeradwyo cynllunio a draenio cynaliadwy ar wahân. Er na ellir rhoi pwys ffurfiol ar y canllaw hwn nes i'r TAN 15 newydd gael ei gyhoeddi byddem yn cefnogi ymdrechion lleol, trwy feini prawf dilysu er enghraifft, sy'n gofyn am y math hwn o wybodaeth gan ymgeiswyr. Ar y lleiaf, rydym yn disgwyl i awdurdodau cynllunio lleol a chyrrff cymeradwyo draenio cynaliadwy barhau i annog ymgeiswyr i ddod â'r ddau gais ymlaen ar yr un pryd.

Yn gywir



Neil Hemington
Y Prif Gynllunydd



Dr Andy Fraser
Dirprwy Gyfarwyddwr
Dŵr, Llifogydd a diogelwch tipiau glo

> 7 Llifogydd a'r system a arweinir gan gynllun

7.1 Mae cynlluniau datblygu'n gosod y cyd-destun ar gyfer penderfyniadau rhesymegol a chyson ac yn rhoi sicrwydd i ddatblygwyr a'r cyhoedd am y math o ddatblygiad a fydd yn cael ei ganiatáu mewn lleoliad penodol.

Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd

7.2 Rhaid cynnal Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd (ASoGLI) fel modd i gasglu tystiolaeth i lywio polisiau a phrosesau dewis safleoedd ar gyfer yr holl Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol. Dylai helpu'r awdurdod(au) cynllunio i ystyried materion perygl llifogydd mewn ffordd sy'n gydnaws ag uchelgeisiau creu lleoedd. Dylai'r ASoGLI lywio dyheadau datblygu a nodi ffyrdd o leihau'r perygl o lifogydd ar gyfer cymunedau sy'n bodoli eisoes. Dylai ASoGLlau esblygu a datblygu yn ystod y broses creu cynllun wrth i ragor o wybodaeth ddod ar gael ac wrth i ragor o benderfyniadau gael eu gwneud am gynnwys y Cynllun Datblygu.

7.3 Nid yw ffynonellau ac achosion llifogydd yn gyfyngedig i ffiniau awdurdodau lleol ac, felly, bydd ASoGLI sy'n cwmpasu dalgylchoedd afon yn fwy effeithiol ac effeithlon. Mae'r dull hwn hefyd yn darparu rhagor o opsiynau a mwy o hyblygrwydd ar gyfer ymateb yn briodol ac yn gynaliadwy i ganfyddiadau'r ASoGLI.

7.4 Bydd ASoGLlau yn darparu gwybodaeth ar gyfer awdurdodau cynllunio am berygl llifogydd yn awr ac yn y dyfodol, gan ddefnyddio'r wybodaeth orau sydd ar gael am y newid yn yr hinsawdd a newidiadau rhagamcanol i natur perygl llifogydd. Dylent gynnwys ystyried pob ffynhonnell llifogydd, gan gynnwys peryglon sy'n gysylltiedig ag afonydd a'r môr, erydu arfordirol, dŵr daear, cyrsiau dŵr cyffredin a dŵr

daear. Mae'n bwysig bod ASoGLlau yn cynnwys ac yn ystyried tystiolaeth o ystod o ffynonellau, gan gynnwys mapiau a modelau, Asesiad Perygl Llifogydd Cymru, Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd, Cynlluniau Rheoli Traethlin a Datganiadau Ardal.

7.5 Bydd ASoGLlau yn dangos yn gynnar yn y broses yr ardaloedd hynny lle y byddai datblygu'n groes i bolisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol. Gall ASoGLlau hefyd nodi'r angen i gynnwys dulliau lleol-benodol mewn cynlluniau datblygu. Gall y rhain ymwneud â'r wybodaeth am Ddigwyddiadau Llifogydd a Gofnodwyd ar y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, cofnodion lleol o lifogydd dŵr wyneb neu gyrsiau dŵr cyffredin neu erydu arfordirol, neu ardaloedd lle y disgwylir i'r peryglon gynyddu oherwydd y newid yn yr hinsawdd. Gallai awdurdodau cynllunio ystyried camau gweithredu sy'n benodol i ardal neu'n benodol i gynnig, megis cyfyngu ar rai mathau o ddatblygiad, camau sy'n lleihau risgiau i gymunedau sy'n bodoli eisoes, yr angen am asesiad pellach neu integreiddio nodweddion dylunio yn y datblygiad. Dylai unrhyw ddulliau lleol gael eu nodi'n glir yn y Cynllun Datblygu.

7.6 Dylai Cynlluniau Datblygu fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth dda o allu'r gwasanaethau brys i ymateb i lifogydd ac, felly, dylid ceisio barn rhanddeiliaid allweddol megis timau Cynllunio at argyfwng a'r gwasanaethau brys ar y cam hwn. Lle mae gan gynllunwyr at Argyfwng a gwasanaethau brys farn gref ynglŷn â darparu a lleoli trefniadau mynd i mewn ac allan, dylai'r Cynllun Datblygu gyfleu'r gofynion hyn i ddarparu ddatblygwyr. Dylai eu cynnwys yn gynnar leihau'r angen i wasanaethau brys wneud sylwadau ar faterion rheoli datblygu rheolaidd hefyd.

7.7 Dylai ASoGLlau gynnwys ystyried cyfleoedd i arafu a storio dŵr fel rhan o gynlluniau rheoli llifogydd a dŵr naturiol, gan fod rheoli tir yn briodol yn gallu helpu i leihau perygl llifogydd. Mae nodi ardaloedd lle y gellir arafu neu storio dŵr, naill ai'n barhaol neu dros dro yn ystod glaw trwm, yn arbennig o bwysig o ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd y mae Cymru yn eu hwynebu. Gall opsiynau megis gwaith adlinio'r arfordir a reolir ac adfer gorlifdiroedd gyfrannu at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, lliniaru perygl llifogydd yn y dyfodol a gwella treftadaeth naturiol. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol mewn ardaloedd lle na ellir cynnal datblygu presennol yn wyneb perygl llifogydd cynyddol, neu mewn ardaloedd a ddatblygwyd mewn modd gwasgaredig lle mae hyn yn cynnig ateb mwy costeffeithiol a chynaliadwy nag adeiladu amddiffynfeydd newydd. Dylai cynigion fod wedi'u nodi'n glir yn y Cynllun Datblygu.

Polisiau mewn Cynlluniau Datblygu

- 7.8 Ni ddylai polisiau ar berygl llifogydd ailadrodd polisi cenedlaethol, ond yn hytrach dylent ganolbwyntio ar ofynion sy'n benodol yn lleol ar sail yr Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd.
- 7.9 Yn yr un modd, dylai polisiau ar ddatblygu arfordirol fod yn benodol i nodweddion y morlin yn ardal y cynllun. Gall polisiau nodi mathau o ddatblygiadau a all fod yn dderbyniol yn ogystal â mathau na fyddant yn cael eu cefnogi mewn ardaloedd arfordirol. Dylid adlewyrchu uchelgais polisiau'r Cynlluniau Rheoli Traethlin yn glir. Mae adran 9 yn rhoi rhagor o fanylion am gynllunio ar gyfer datblygu mewn lleoliadau arfordirol.

Y broses dewis safleoedd

- 7.10 Dylid dewis safleoedd er mwyn cefnogi uchelgeisiau cyffredinol y Cynllun Datblygu. Dylai awdurdodau cynllunio flaenoriaethu datblygu ym Mharth 1. Gall safleoedd hefyd gael eu dyrannu ar gyfer unrhyw fathau o ddatblygiad ar dir llwyd ym Mharthau Amddiffynnol TAN 15.

7.11 Ym Mharth 2 (Afonydd a'r Môr), gellir dyrannu datblygiadau ar dir llwyd. Dylent fod yn ddatblygiadau sy'n gweithredu, yn llwyr neu'n rhannol, strategaeth i adfywio neu adfywiogi aneddiadau sy'n bodoli eisoes neu gyflawni amcanion economaidd neu amgylcheddol allweddol. Gellir dyrannu tir llwyd ym Mharth 2 hefyd ar gyfer datblygiadau sy'n diwallu anghenion diogelwch cenedlaethol neu ddiogelwch ynni, sy'n lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd neu sydd eu hangen i ddiogelu a hybu iechyd y cyhoedd.

7.12 Ym Mharth 3 (Afonydd a'r Môr), ni ddylai dyraniadau ar gyfer datblygiadau preswyl a datblygiadau eraill sydd dan fygythiad mawr gael eu gwneud gan nad yw peryglon a chanlyniadau llifogydd yn cael eu hystyried yn dderbyniol ar gyfer y mathau hyn o ddatblygiadau. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylai dyraniadau ar gyfer datblygiadau sydd dan lai o fygythiad, gan gynnwys seilwaith trafndiaeth a chyfleustodau hanfodol, gael eu gwneud. Gallai amgylchiadau eithriadol gynnwys diwallu anghenion diogelwch cenedlaethol neu ddiogelwch ynni, lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd neu resymau sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd.

7.13 Wrth gynnig unrhyw ddyraniad mewn ardal lle ceir perygl o lifogydd dylai'r awdurdod cynllunio gasglu digon o dystiolaeth gefndir i fod yn weddol hyderus y gall y datblygiad fodloni gofynion adran 11. Dylai'r awdurdod cynllunio ofyn am y wybodaeth hon pan gyflwynir safleoedd gan berchenogion tir neu ddatblygwyr a bydd angen iddo gynnal neu gomisiynu asesiad o berygl llifogydd a chanlyniadau llifogydd ar gyfer y safleoedd hynny y mae'n eu cyflwyno ei hun er mwyn bod yn siŵr y gellir eu rheoli mewn ffordd effeithiol a derbyniol. Gall y wybodaeth hon ddod i'r amlwg drwy'r ASoGLI neu drwy asesiad pwrpasol a bydd yn darparu'r sail i Asesiad manylach o Ganlyniadau Llifogydd gan y datblygwr yn ddiweddarach. Dylai'r awdurdod cynllunio ymgysylltu ag ymgynghoreion statudol ac Awdurdodau Rheoli Risg er mwyn iddynt ei gynorthwyo gyda'r gwaith hwn.

- 7.14 Os ystyrir bod canlyniadau datblygiad a ddyrennir mewn ardal lle ceir perygl o lifogydd yn dderbyniol yn unol ag adran 11, dylid nodi naill ai yn y Cynllun Datblygu neu ar y map cynigion fod llifogydd posibl yn gyfyngiad ar y safle unigol. Dylai unrhyw ofynion sy'n ymwneud â llifogydd ar gyfer datblygu'r safle hwnnw gael eu nodi yn y Cynllun Datblygu. Bydd hyn yn cynnwys nodi'n glir y bydd angen i ddatblygwr, wrth fwrw ymlaen â'r dyraniad hwnnw, gynnal asesiadau technegol manwl cyn cyflwyno cais cynllunio.
- 7.15 Dylai'r awdurdod cynllunio fodloni ei hun y bydd unrhyw ddatblygiad y mae'n ei ddyrannu yn gallu gwrthsefyll llifogydd drwy gydol ei oes. Gan ddefnyddio'r amcanestyniadau cenedlaethol diweddaraf o ran y newid yn yr hinsawdd, dylai awdurdodau cynllunio sicrhau bod anheddau newydd yn lleoedd diogel i fyw ynddynt yn awr ac yn y dyfodol. Yn gyffredinol, mae'n briodol ystyried bod cartrefi newydd yn para 100 mlynedd. Bydd oes mathau eraill o ddatblygiad yn amrywio ond ystyrir bod 75 mlynedd yn amcangyfrif rhesymol. Dylai awdurdodau cynllunio gymhwyso'r egwyddor hon mewn modd rhagofalus ar gyfer pob math o ddatblygiad.
- 7.16 Rhaid i unrhyw ddyraniadau ar gyfer datblygiadau mewn lleoliadau arfordirol gael eu gwneud yn unol â'r cyngor yn adran 9. Dylai'r awdurdod cynllunio fodloni ei hun bod y datblygiad yn bodloni gofynion adran 10 ac adran 11.

Adfywio ac adnewyddu trefol

- 7.17 Oherwydd daearyddiaeth a hanes diwydiannol Cymru, mae rhai cymunedau trefol mawr mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd. Ni fyddai'r cymunedau hynny'n debygol o gael eu sefydlu o dan bolisiâu cynllunio cyfoes. Mae llawer o'r rhain wedi'u cydnabod fel Ardaloedd Twf Cenedlaethol neu Ranbarthol yn Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040. Dylid cynorthwyo cymunedau mewn ardaloedd o'r fath i barhau i allu gwrthsefyll llifogydd a bod yn hyfyw ac yn ffyniannus. Ar y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, mae rhai rhannau o'r Ardaloedd Twf ym Mharthau Amddiffynnol TAN 15 ond mae llawer yn wynebu perygl llifogydd o afonydd a'r môr ac maent ym Mharth 2 neu Barth 3 ar hyn o bryd. Felly, prin fydd y cyfleoedd i ddatblygu, oni ellir sicrhau buddsoddiad mewn gwell amddiffynfeydd rhag llifogydd a seilwaith rheoli er budd y cymunedau sy'n bodoli eisoes a dangos bod y buddsoddiad hwnnw'n bodloni meini prawf Parthau Amddiffynnol TAN 15.
- 7.18 Dengys Polisi 8 o Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040, fod Llywodraeth Cymru o blaid rheoli perygl llifogydd yn gynaliadwy yn yr ardaloedd twf cenedlaethol a rhanbarthol. Mae cefnogaeth o blaid galluogi ardaloedd ym Mharthau 2 neu 3 (Afonydd a'r Môr) i ddod yn Parthau Amddiffynnol drwy ddefnyddio atebion newydd sy'n seiliedig ar natur neu wella amddiffynfeydd rhag llifogydd sy'n bodoli eisoes. Bydd hyn yn rhoi diogelwch pwysig i ddatblygiadau presennol ac yn ei gwneud yn bosibl i waith ailddatblygu ac adnewyddu gael ei wneud mewn ffordd gynaliadwy a chyfrifol.

Systemau Draenio

- 7.19 Mae systemau draenio cynaliadwy (SDCau) yn ofynnol ar y rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd ac fe'u hyrwyddir ym mhob achos fel y ffordd fwyaf effeithiol o reoli dŵr wyneb mewn ffordd gynaliadwy. Dylai Cynlluniau Datblygu annog datblygwyr i reoli dŵr wyneb mor agos â phosibl at ei darddiad yn achos pob datblygiad. Ynghyd ag ystyriaethau eraill o ran llifogydd, dylid ystyried draenio cyn gynted ag y bo modd yn y broses dewis safleoedd, oherwydd y bydd rheoli dŵr yn dylanwadu ar faterion allweddol megis cynllun a dwysedd y datblygiad. Dylai gwybodaeth a ddelir gan yr awdurdod lleol a allai helpu datblygwyr i lunio ceisiadau cynllunio i'w cyflwyno yn y dyfodol, gael ei chyhoeddi yn ei Gynllun Datblygu neu ochr yn ochr ag ef, fel canllawiau cynllunio atodol o bosibl.

Cronfeydd dŵr

- 7.20 Caiff cronfeydd dŵr yng Nghymru eu categoreiddio yn ôl y risg y maent ei beri i'r cyhoedd a'r amgylchedd os bydd y gronfa'n methu, sy'n annhebygol o ddigwydd. Mae maint y datblygiad yn y dalgylch gorlifo yn ffactor pwysig wrth bennu categori risg cronfa ddŵr.
- 7.21 Gall cynllunio defnydd tir arwain yn anfwriadol at ailddosbarthu risg os yw datblygiad newydd wedi'i leoli yn ardal orlifo cronfa ddŵr. Bydd goblygiadau cynnal a chadw ac yswiriant ychwanegol i berchnogion a gweithredwyr cronfeydd dŵr. Dylid ymgynghori â mapiau gorlifo'r gronfa ddŵr ar y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio wrth baratoi Cynlluniau Datblygu. Dylai'r awdurdodau cynllunio godi unrhyw oblygiadau posibl i berchnogion neu weithredwyr cronfeydd dŵr, megis dyrannu datblygiad mewn ardaloedd gorlifo, yn agored ac yn adeiladol.

Rolau a chyfrifoldebau allweddol

Paratoi Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd (ASoGLlau) – Cyd-bwyllgorau Corfforedig ac awdurdodau cynllunio.

Rhoi cyngor ar baratoi ASoGLlau – Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol.

Mewnbwn arbenigol – Awdurdodau Rheoli Risg, adrannau Cynllunio at Argyfwng, Corff Cymeradwyo SDCau, fforymau lleol Cymru gydnerth, y gwasanaethau brys, y diwydiant yswiriant a Grwpiau Arfordirol.